

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Llywydd

25 Mai 2022

Annwyl Elin,

Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Pleser o'r mwyaf oedd cael cynrychioli'r Senedd yng nghyfarfod cyntaf Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE ym Mrwsel ar 12-13 Mai 2022. Fel y gwyddoch, sefydlwyd y Cynulliad Partneriaeth o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE, gyda'r bwriad o ddwyn â seneddwyr o'r DU a'r UE ynghyd i drafod y modd y caiff y cytundeb ei weithredu a statws y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn ehangach.



Roedd yn bwysig ein bod ni, fel Aelodau o'r Senedd, yn ogystal â chydweithwyr o Senedd yr Alban, yn gallu mynd i'r cyfarfod, ynghyd â chydweithwyr o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Cafodd y cyfarfod ei annerch gan y Comisiynydd Šeřčovič a chan Michael Ellis AS, Gweinidog Swyddfa'r Cabinet. Er bod gwahaniaethau amlwg i'w gweld o ran gweithredu'r Protocol a materion eraill, roedd y cyfarfod hefyd yn gyfle i seneddwyr gael deialog onest ynghylch y materion y mae Gogledd Iwerddon yn eu hwynebu, ac ynghylch atebion posibl a allai hwyluso'r broses o weithredu'r Protocol.



Cafwyd trafodaeth hefyd ar gydweithio rhwng y DU a'r UE ym meysydd diogelwch a pholisi tramor, ac yn benodol ar yr ymdrechion a wneir ar y cyd i gefnogi Llywodraeth Wcráin yn y rhyfel yn y wlad honno. Cafodd y cyfarfod ei annerch hefyd gan Stefano Sannino, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Gweithredu Allanol Ewropeaidd, a chan y Gwir Anrhydeddus James Heappey, Gweinidog y Lluoedd Arfog. Yn ogystal, cymerodd y ddau ohonynt ran mewn dadl fanwl ar yr hyn y mae'r rhyfel yn ei olygu o ran cydweithio rhwng y DU a'r UE yn y meysydd hyn, meysydd posibl o gydweithio yn y dyfodol, a'r broses o ymchwilio i droseddau rhyfel posibl.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Cysylltu@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales
 0300 200 6565

Gwnaeth y broses o gyfnewid barn ar sicrwydd ynni, newid hinsawdd, arloesi ac ymchwil dynnu sylw at feysydd sylweddol o ddi-ddordeb cyffredin sy'n bodoli rhwng y dirprwyaethau, yn ogystal ag ystod o feysydd posibl lle gallai'r Cynulliad gael effaith gyfunol yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth hefyd ar y Cynulliad ei hun, a'i ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Er bod cael Aelodau o'r Senedd yn bresennol yn yr ystafell yn amhrisiadwy o ran meithrin perthynas â chydweithwyr yn y DU ac Ewrop, dylid ymchwilio ymhellach i roi cyfle i gynrychiolwyr deddfwrfeydd datganoledig gyfrannu i'r cyfarfodydd ar feysydd sy'n gysylltiedig â materion datganoledig. Byddai hyn yn cyfoethogi'r trafodaethau ac yn sicrhau bod deddfwrfeydd datganoledig yn gallu nodi eu safbwyntiau ynghylch y meysydd lle mae ganddynt gyfrifoldebau gweithredu.

Roedd yn bwysig bod y trafodion yn cael eu darlledu'n fyw gan Senedd Ewrop, fel bod rhanddeiliaid a dinasyddion yn gallu dilyn y trafodaethau a gynhaliwyd. Rydym yn gobeithio y bydd y dull tryloyw hwn yn parhau i gael ei ddilyn ar gyfer holl gyfarfodydd y Cynulliad yn y dyfodol.

Un mater y byddwch, o bosibl, am ei ystyried yw sut y caiff y Senedd ei hysbysu am ganlyniadau'r cyfarfodydd hyn gan y rhai sy'n cymryd rhan. Bwriad y llythyr hwn yw dechrau'r broses honno. Rydym yn gobeithio y bydd yn ddefnyddiol ar gyfer y trafodaethau sydd i'w cynnal gan Fforwm y Cadeiryddion yr wythnos hon ynghylch cynrychiolaeth ar y Cynulliad Partneriaeth yn y dyfodol.

Yn gywir,



Alun Davies AS

Aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad



Sam Kurtz MS

Aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

